PLEASE SCROLL DOWN FOR ENGLISH TEXT

RHAGOR O DDRWG YN Y CAWS?

Mae grŵp a berfformiodd drama dafod-yn-y-boch DRWG YN Y CAWS fis Hydref diwethaf er sicrhau na fyddai Llywodraeth y Cynulliad na chwmni Dairygold yn anghofio am ffatri wâg yng nghefn gwlad Ceredigion, nac am y 115 o swyddi a gollwyd yno, wedi galw cyfarfod cyhoeddus i drafod y bwriad i gau ffatri arall yn Nyffryn Aeron, ffatri Aeron Valley Cheese.

Cynhelir y cyfarfod agored hwn nos Fawrth nesaf (Mawrth 20 – 8 o'r gloch) yn Theatr Felin-fach – drws nesaf i safle'r ffatri gaws.

Medd Owen Llywelyn, cynghorydd sir ac aelod o'r grŵp: 'Ry' ni fel grŵp yn benderfynol o edrych ar bob opsiwn posib o ran datblygu swyddi newydd ar gyfer y 44 o bobl leol a fydd mas o waith ar ddiwedd y mis hwn. Gyda cau'r ffatri hon mi fydd dros 50 mlynedd o brofiad o drin llaeth i'r safonau uchaf yn mynd i golli, ac mi fydd y costau ychwanegol o gario llaeth o'r ardaloedd hyn bob cam i Hwlffordd a chanolfannau pellach yn gosod rhagor o straen ar incwm ein cynhyrchwyr llaeth.'

Yn ei ategu, dywedodd Euros Lewis: 'Mae dod a gymaint byth ac sy'n bosib o bobl a effeithir gan y penderfyniad diflas hwn ynghyd yn bwysig er mwyn ceisio datblygu syniadau sy'n cynnig gobaith i'r dyfodol. Yn ogystal â chwestiynu sut y'n ni wedi cyrraedd y sefyllfa hon, mi fyddwn ni hefyd yn edrych ar botensial y diwydiant llaeth yng Ngheredigion, a beth sydd angen ei wneud er mwyn gwireddu'r potensial hwnnw.'

Y newyddiadurwr profiadol Dylan Iorwerth, Golygydd-Gyfarwyddwr Golwg, fydd yn llywio'r drafodaeth. Yn ogystal â gwahodd y gynulleidfa i leisio barn, mi fydd e hefyd yn troi at gynrychiolwyr ar ran cwmni Aeron Valley Cheese, undebau'r ffermwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru, First Milk, Llaeth Cymreig a Chyngor Sir Ceredigion yn ogystal ag Elin Jones A.C. a Mark Williams, A.S. am atebion ac arweiniad. Mi fydd Ymgynghorwyr Llaeth Annibynnol hefyd yn bresennol i drafod y ffordd ymlaen.

DWY FFATRI, UN GYMUNED – CYFARFOD CYHOEDDUS I DRAFOD CAU FFATRI GAWS DYFFRYN AERON, SEGURDOD FFATRI DAIRYGOLD A DYFODOL CYNHYRCHWYR LLAETH CEREDIGION – THEATR FELIN-FACH – NOS FAWRTH, MAWRTH 20 – 8 O'R GLOCH.

MANYLION PELLACH: OWEN LLYWELYN (07813 795096) NEU EUROS LEWIS (01570 471328 / 07813 173155)

DAIRYGOLD CAMPAIGN GROUP ACT ON THE PART OF SECOND CLOSURE

A campaign group that was formed to ensure that Dairygold and the Assembly Government were not allowed to forget about an empty factory in the heart of rural Ceredigion (as well as the 115 jobs lost there) has organised a public meeting to discuss the proposed closure of the nearby Aeron Valley Cheese plant.

The open meeting will take place at Theatr Felin-fach (situated next door to the cheese factory) next Tuesday evening (March 20th) at 8.00pm.

Owen Llywelyn, county councillor and campaign group member, comments:
'As a group, we are determined to do all we can to aid the development of new jobs for the 44 who will be made redundant at the end of this month. With the closure of this plant, over 50 years of expertise in high quality milk production will be lost, and the additional costs of transporting milk from Ceredigion to Haverfordwest will impose greater strains on the milk producers' already wafer-thin margins.

Supporting his comments, group member Euros Lewis says: 'Bringing as many people who are affected by this sorry decision together will give us an opportunity to develop ideas that give hope for the future. As well as questioning how this situation has come about we will be looking at the very real potential of Ceredigion's dairy industry and what needs to be done in order to realise that potential.'

The respected journalist Dylan Iorwerth (Director-Editor of the weekly Golwg, and Western Mail columnist) will be in charge of the event. As well as giving audience members an opportunity to air their views, he will also be calling upon representatives from Aeron Valley Cheese, the two farmers' unions, Wales Assembly Government, First Milk, Llaeth Cymreig and Ceredigion County Council for answers and proposals. Independent dairy industry experts will also be present to point the way ahead.

Simultaneous translation facilities will be available throughout the evening.

DWY FFATRI, UN GYMUNED (TWO FACTORIES, ONE COMMUNITY) – AN OPEN MEETING TO DISCUSS THE CLOSURE OF AERON VALLEY CHEESE, THE MOTHBALLING OF THE DAIRYGOLD PLANT AND THE FUTURES OF CEREDIGION MILK PRODUCERS – THEATR FELIN-FACH – TUESDAY, MARCH 20th – 8.00pm

MORE DETAILS: OWEN LLYWELYN (07813 795096) OR EUROS LEWIS (01570 471328 / 07813 173155)